**Jane Hutt AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf:
Chwefror 2012

Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

27 Chwefror 2012

Annwyl Rosemary,

**RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (ADDASU CYFRIFIADAU ANGENRHEIDIOL) (CYMRU) 2012**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu, er mwyn i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2012 ddod i rym yng Nghymru, bod yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2012 a byddant yn dod i rym ar 28 Chwefror 2012.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cydrannau'r cyfrifiadau a nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdodau lleol a'r prif awdurdodau praeseptio i gyfrifo eu hanghenion cyllideb a'u treth gyngor.

Mae adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn gosod, yn y drefn honno, sut y mae awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) a phrif awdurdod praeseptio (awdurdod yr heddlu) i gyfrifo eu hanghenion cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol. Mae adrannau 33 a 44 o Ddeddf 1992 yn gosod, yn y drefn honno, sut y mae awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) a phrif awdurdod praeseptio (awdurdod yr heddlu) i gyfrifo swm sylfaenol eu treth gyngor.

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud bob blwyddyn yn dilyn cymeradwyo Adroddiad Grant yr Heddlu, sy'n adroddiad blynyddol, gan Dŷ'r Cyffredin a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol, Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) (Setliad Terfynol - Awdurdodau Heddlu) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mewn perthynas â Chymru, diffinnir grant yr heddlu ("police grant") yn adran 43 o Ddeddf 1992 drwy gyfeirio at y swm sy'n daladwy yn unol ag Adroddiad Grant yr Heddlu, a chaiff y diffiniad o arian gwaelodol ("floor funding") ei addasu yn y Rheoliadau hyn at ddibenion yr awdurdodau lleol yn cyfrifo eu hanghenion cyllideb a symiau sylfaenol eu treth gyngor ar gyfer 2012-2013. Mae symiau'r grant sy'n daladwy o dan Adroddiad Grant yr Heddlu a'r arian gwaelodol ("floor funding") yn effeithio ar y cyfrifiadau hyn. Mae'r diffiniad o'r symiau sy'n daladwy mewn grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig sydd wedi'u

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

hailddosbarthu wedi'i addasu yn y Rheoliadau hyn drwy gyfeirio at y symiau sy'n daladwy o dan Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu) at ddibenion yr awdurdodau lleol yn cyfrifo eu hanghenion cyllideb a symiau sylfaenol eu treth gyngor.

Gall Awdurdodau Lleol gyfrifo eu hanghenion cyllideb a phennu eu trethi cyngor (o dan Benodau III a IV o Ran 1 o Ddeddf 1992) unwaith y bydd Adroddiad Grant yr Heddlu ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu), wedi'u cymeradwyo.

Nid oedd yn bosibl gwneud y Rheoliadau hyn cyn i Adroddiad Grant yr Heddlu (Cymru a Lloegr) 2012 -13, y cyfeirir ato yn y Rheoliadau, gael ei gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a chyn i Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu), y cyfeirir ato hefyd yn y Rheoliadau hyn, gael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Oherwydd natur cyllido'r heddlu yng Nghymru a Lloegr (lle mae'r setliad ar gyfer awdurdodau'r heddlu yng Nghymru yn cynnwys tair elfen, Grant Cynnal Refeniw a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu ac Arian Gwaelodol a ddarperir gan y Swyddfa Gartref), rhaid i Adroddiad Grant yr Heddlu gael ei gymeradwyo cyn y gellir gosod yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cymeradwywyd Adroddiad Grant yr Heddlu gan Dŷ'r Cyffredin ar 8 Chwefror 2012 ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu) gan y Cynulliad ar 21 Chwefror 2012.

Cyn gynted ag y bydd Adroddiad Grant yr Heddlu ac Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau'r Heddlu) wedi'u cymeradwyo, gall awdurdodau lleol gyfrifo eu hanghenion cyllideb a phennu eu trethi cyngor. Rhaid i awdurdodau bilio gyfrifo eu hanghenion cyllideb a gosod eu trethi cyngor cyn 11 Mawrth a rhaid i'r prif awdurdodau praeseptio gyhoeddi eu praeseptau i'r awdurdodau bilio erbyn 1 Mawrth. Felly, mae angen i'r Offeryn dorri'r rheol 21 diwrnod i ganiatáu amser i'r awdurdodau wneud y cyfrifiadau angenrheidiol o fewn y cyfyngiadau statudol hyn.

Yn olaf, mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau yn cywiro mân wall drafftio yn Neddf Lleoliaeth 2011, un o Ddeddfau Senedd y DU, drwy roi "Welsh Ministers" yn lle "Secretary of State" yn adran 32(5)(b) o Ddeddf 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Paratowyd Memorandwm Esboniadol hefyd, sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae wedi cael ei osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Jane Hutt

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House